Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## Manteisio i'r eithaf ar Gadwyni Cyflenwi Bwyd a Chynhaeaf Naturiol Cymru

## Adroddiad Digwyddiad

OGL

## Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Y rhaglen | 3 |
| Y sesiwn cwestiwn ac ateb cyntaf | 3 |
| Cyflwyniadau prosiect | 4 |
| Ail sesiwn cwestiwn ac ateb | 4 |
| Casgliad | 5 |
| Negeseuon allweddol | |
| Y camau nesaf | |
| Atodiadau | |
| 1 Sesiynau grŵp | 7 |
| 2 Dolenni defnyddiol | 12 |

**Cyflwyniad**
Agorodd y digwyddiad ar-lein hwn am 10.00am gyda rhyw 47 o gynrychiolwyr yn gwylio. Cyflwynwyd y digwyddiad gan y darlledwr Chris Jones a gyflwynodd yr amrywiol siaradwyr trwy gydol y dydd ar ôl croesawu'r holl gyfranogwyr a chadeirio'r ddwy sesiwn Holi ac Ateb. Yn ogystal â'r prif gyfarfod llawn, cynhaliwyd pedair sesiwn grŵp, pob un yn cael ei chadeirio gan hwylusydd.

## Y rhaglen
Agorwyd y digwyddiad gan **Helen Minnice-Smith** - Pennaeth Economi Wledig, ac Is-adran Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, a roddodd fanylion am weithgareddau'r dydd, ac yna:

**Andrew Martin**, Pennaeth Datblygu Busnes a Marchnad, yr Is-adran Bwyd, a gyflwynodd y Cynllun Adfer Covid Bwyd ac ymateb Cymru i'r pandemig.

**Gail Merriman**, yr Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol, yr wybodaeth ddiweddaraf am amcanion polisi Llywodraeth Cymru o ran Adferiad Gwyrdd a'r Economi Gylchol.

**Peter Davies**, sy'n Aelod o'r Bartneriaeth Cyflenwi Adferiad Gwyrdd, dan gadeiryddiaeth Syr David Henshaw. Mae'r Grŵp yn adrodd i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig "Roundtable Wales".

## Y Sesiwn cwestiwn ac ateb cyntaf
Yn dilyn hynny, cynhaliwyd y cyntaf o ddwy sesiwn Holi ac Ateb y bu panel Helen Minnice-Smith, Andrew Martin, Gail Merriman a Peter Davies yn rhoi sylw iddynt. Ymunodd Kate Hamilton o'r Comisiwn Bwyd a Ffermio â'r panel hefyd. Roedd y drafodaeth yn trafod tri maes eang:

Symud o strategaeth i weithredu
Teimlwyd bod Cymru wedi llunio llawer o strategaethau economaidd a gwledig dros y blynyddoedd, ond nawr oedd yr amser i ganolbwyntio ar gyflawni a gweithredu, gan ddod â'r partïon ynghyd a all wneud y syniadau hyn yn realiti.

Trafodwyd perfformiad Cymru o gymharu â gwledydd eraill a theimlwyd ei bod yn ymddangos bod gan wledydd eraill fwy o werth ychwanegol yn eu prif sectorau a allai awgrymu eu bod yn fwy cydgysylltiedig.

Er y cydnabuwyd bod llawer o waith yn cael ei wneud i uno mentrau rhanbarthol ledled Cymru, efallai y byddem yn elwa o ddatblygu fframwaith a fyddai'n cysylltu'r holl strategaethau hyn i helpu i lunio ffordd o uno cynhyrchu hyd at ddefnydd.

Cyfathrebu
Rhoddwyd pwyslais mawr gan aelodau'r panel ar yr angen i osgoi'r meddylfryd seilo – mae angen cydweithio i gyflawni sawl amcan a gwir gynaliadwyedd.

Er bod sgyrsiau yn digwydd, ni allai byth fod digon ohonynt. Mae angen i ni edrych ar draws ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol am enghreifftiau da o ehangu ein gorwelion i ysbrydoli ein hunain. Nid oes ffiniau i fwyd.

Awgrymwyd mai un o ganlyniadau mawr y pandemig Covid oedd pwysigrwydd ymateb cymunedol / lleol, ac mae angen i ni fanteisio ar hynny. Os gallwn greu ysbryd o gydweithredu wrth ymateb i Covid byddwn ar ein hennill - mae'r dull uno a gweithio mewn partneriaeth yn allweddol.

I helpu gyda hyn, soniwyd am brosiect dadansoddi data sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Mynwy a oedd yn catalogio tir, mathau o bridd, lleoliad ffermydd, pwy sy'n tyfu beth, er mwyn darparu'r wybodaeth fyddai'n cysylltu'r ffermwr/tyfwr â chyflenwyr a busnesau.

Arloesi a chyfleoedd masnachol
Yng nghyd-destun symud i gyfnod gweithredu, mae angen i ni nodi syniadau arloesol, a dod o hyd i ffyrdd o ddod â'r partïon ynghyd i'w troi'n realiti.

Dyma'r syniadau a drafodwyd:

- perllannau afalau
- gerddi coedwig
- cynhyrchion coedwig nad ydynt yn bren
- cyfleoedd amaeth-goedwigaeth, cymysgu da byw â choed
- defnydd ehangach o wlân mewn cynhyrchion fel PPE
- cadw gwenyn ar gyfer cynhyrchu cyflenwadau o gwyr

Trafodwyd hefyd bod angen arloesi mewn cadwyni cyflenwi. Er mwyn bod yn wirioneddol gynaliadwy, roedd angen i gynhyrchwyr bwyd a diod fod yn ymwybodol o darddiad eu cynhwysion, ee: olew palmwydd a soia, yr oedd ei drin yn niweidiol i'r amgylchedd.

Trafodwyd hefyd bod angen arloesi mewn cadwyni cyflenwi. Er mwyn bod yn wirioneddol gynaliadwy, mae angen i gynhyrchwyr bwyd a diod fod yn ymwybodol o darddiad eu cynhwysion, ee: olew palmwydd a soia a'r ffaith bod ei drin yn niweidiol i'r amgylchedd.

Yr ateb yw cyfnewid cadwyn gyflenwi, dod o hyd i wahanol ddeunyddiau crai, neu eu tyfu neu eu gwneud ein hunain yn hytrach na'u mewnforio – tyfu te er enghraifft.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol iawn i ni bwyso a mesur pa gynhyrchion lleol a chynaliadwy oedd yn cael eu defnyddio'n llawer ehangach yn y cenedlaethau a aeth heibio y gallem o bosibl droi atynt fel sylfeini cyfleoedd masnachol newydd, ee: cwyr gwenyn, gwlân.

Teimlwyd hefyd bod angen i Gymru elwa'n fasnachol lawer mwy ar y Gymru frodorol, gan ddatblygu brand sy'n dangos i'r byd ein bod yn wyrdd ac yn gynaliadwy.

Yn dilyn Brexit, dywedwyd na ddylid ystyried Ewrop yn fygythiad ond yn gyfle i sefydlu partneriaethau masnachol newydd. Cytunwyd bod Cymru yn ddigon bach i fod yn ystwyth yn y byd newydd ar ôl Brexit.

## Cyflwyniadau prosiect

Yn dilyn y sesiynau cwestiwn ac ateb, cafwyd cyflwyniadau gan y canlynol:
**Dafydd Gruffydd, Menter Môn**;
**Neil Burchell, Total Food Marketing;**
**Lucy Kew & Maria Wilding, rheolwyr prosiect a rhaglen Dewis Gwyllt.**

## Ail sesiwn cwestiwn ac ateb

Yna, cafwyd yr ail sesiwn Holi ac Ateb oedd yn trafod rhai enghreifftiau o arfer da a sut mae eisiau i gwmnïau weithredu yn y byd ôl-Covid.

Cydnabuwyd bod hwn yn gyfnod anodd iawn i gwmnïau - yn enwedig cwmnïau bach. Ond mae gan Lywodraeth Cymru lawer o raglenni i helpu cwmnïau i addasu a datblygu cynhyrchion ac i greu sianeli gwerthu newydd - mewn gwirionedd, mae gan Gymru lawer iawn mwy o ffynonellau cefnogaeth o gymharu â gwledydd eraill.

Soniwyd am nifer o brosiectau fel enghreifftiau o ffyrdd newydd o ddatblygu marchnadoedd cynnyrch cynhaeafu:

- Cynllun yn trafod ffermio fertigol, tyfu cnydau trwy'r flwyddyn gan ddefnyddio llai o bŵer a llai o ddŵr, wedi'i leoli'n agos at farchnadoedd lleol fel bwytai, ysgolion ac ysbytai.

- Prosiect peilot sy'n trafod cludo amrywiaeth o gynnyrch ffres i'r cartref, wedi'i seilio ar fodelau Wiltshire Farm Foods a Hello Fresh.

- Cydweithfa cynhyrchwyr a oedd yn rhedeg gwasanaeth "clicio a chasglu" yn llwyddiannus ar gyfer blychau o fwyd a diod a gynhyrchwyd yn lleol.

- Prosiect a oedd wedi creu rhwydwaith yn cefnogi 94 o goetiroedd cymunedol, a reolir gan ac ar gyfer y gymuned, i ddatblygu eu gallu a rheoli eu coetiroedd. Roedd gweithio gyda'i gilydd yn hytrach nag mewn seilos yn rhoi mwy o lais iddynt, gan weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a chynyddu effaith.

Cytunodd y panel fod cyfleoedd ar gael i gwmnïau, ond roedd yn rhaid iddynt fod yn gyflym, yn hyblyg ac yn anhraddodiadol. Mae'n rhaid iddynt ymgysylltu'n agos â defnyddwyr a chyfateb eu cynnig â'r hyn sy'n digwydd yn y byd newydd, â'r hyn mae'r cwsmer eisiau.

Roedd adeiladu rhwydweithiau, cyfathrebu ag eraill a chreu cysylltiadau i gyd yn bwysig, oherwydd gall cyfleoedd godi ar unrhyw adeg.

Ar ôl cinio, rhannwyd y cynrychiolwyr i bedair ystafell ymneilltuo i drafod pedwar cwestiwn allweddol:

1. Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?
2. Beth yw'r rhwystrau allweddol i ddatblygiad ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?
3. Cyfathrebu - sut allwn ni barhau i greu momentwm a manteisio ar yr ymwybyddiaeth gyfredol o gadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?
4. Beth yw'r rhwystrau allweddol i ddatblygiad ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?

Yn dilyn y sesiynau grŵp, cafodd y prif gyfarfod glywed adroddiad gan y pedwar hwylusydd. (Gweler yr atodiad am naratif o sesiynau grŵp*).*

Cyflwyniad olaf y diwrnod oedd gan Gail Merriman oedd yn trafod cyfleoedd cyllido yn y dyfodol.

Yn olaf, diolchodd Helen Minnice-Smith i'r holl gyfranogwyr gan gloi'r digwyddiad.

## Casgliad

Negeseuon allweddol

- Mae angen i ni ymateb i newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth - ni all opsiynau gwyrdd fod yn ddewisiadau, mae'n rhaid eu hymgorffori.

- Er mwyn sicrhau llwyddiant yn yr economi werdd, rhaid i ni gydweithio, gan ymgysylltu â'n cymunedau lleol a'n cadwyni cyflenwi lleol i ddod o hyd i atebion.

- Meddyliwch yn wahanol - arloeswch. Gallwn gystadlu yn yr amgylchedd ôl-Brexit gydag ansawdd uchel yn hytrach na chost isel.

- Mae angen i gwmnïau fod yn hyblyg a symud yn gyflym ar gyfer y dyfodol a chanolbwyntio ar yr hyn y mae'r cwsmer eisiau.

- Manteisiwch ar "Brand Cymru" - fwyd lleol brodorol.

- Rhwydweithio a rhannu - nid oes gan unrhyw un yr holl atebion. Dim mwy o feddylfryd seilo!!

Y camau nesaf
Cydnabuwyd yr ymdeimlad o uchelgais a phawb yn tynnu i'r un cyfeiriad, a chydnabuwyd bod yn rhaid i hyn barhau.

Diolchodd Helen Minnice-Smith, Pennaeth yr Economi Wledig a'r Is-adran Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru i'r holl gyfranogwyr. Dywedodd fod y sesiwn wedi helpu Llywodraeth Cymru i gael gwell argraff ar anghenion y sector, ac ymrwymodd i ymgorffori'r holl ymatebion wrth iddynt barhau i gynllunio'r ffordd ymlaen.

Dywedodd fod y sector ar ddechrau taith newydd a gwahoddodd yr holl gwmnïau a sefydliadau dan sylw i barhau â'r daith gyda nhw.

Fel cam nesaf allweddol, anogwyd busnesau i fod yn greadigol a chyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol ar gyfer prosiectau arloesol a chydweithredol trwy'r rhaglenni cyllido a ddisgrifiwyd yn ystod y sesiwn.

# ATODIAD 1

## Sesiynau grŵp

Trafododd pob un o'r grwpiau y pedwar cwestiwn canlynol:

1. Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?
2. Beth yw'r prif rwystrau i ddatblygiad ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?
3. Cyfathrebu - sut allwn ni barhau i greu momentwm a manteisio ar yr ymwybyddiaeth gyfredol o gadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?
4. Beth yw'r rhwystrau allweddol i ddatblygiad ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd a chynhaeaf naturiol Cymru?

# Ystafell grŵp 1

Cadeiriwyd gan Chris Jones.

**1. Cyfleodd allweddol**

Mae'r Pandemig wedi dangos sut y gall cwmnïau werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd trwy ymgorffori'r dull o werthu eu nwyddau ar-lein trwy wefannau, fforymau bwyd, hybiau bwyd ac ati. Mae angen archwilio technoleg wrth chwilio am atebion.

Mae angen inni edrych ar yr hyn sy'n cael ei fewnforio a gweld a ellir ei ddisodli gan gynhyrchion cartref, er mwyn lleihau ôl troed carbon a bod yn fwy cynaliadwy.

Cyfleoedd i gwmnïau gyfeillio. Ymuno â chwmni cyflenwol i "gydweithredu" – a parhau i fod yn gystadleuol. Cyfleoedd i adeiladu modelau bwyd newydd - meddwl yn wahanol a dod o hyd i atebion newydd.

Angen meddwl am greu cadwyni cyflenwi byr. Oherwydd Covid ac effaith hirdymor cadwyni cyflenwi newid yn yr hinsawdd rhaid i gadwyn fod mor fyr â phosibl i barhau yn gystadleuol ac yn gynaliadwy.

Gwneud gwell defnydd o'r cynhyrchion a'r deunyddiau sydd gennym eisoes yng Nghymru. Mae gwlân yn enghraifft dda.

**2.Rhwystrau allweddol**

Er y gallai newid yn yr hinsawdd gael ei ystyried yn rhwystr, mae hefyd yn creu cyfleoedd i dyfu bwyd na allem yn y gorffennol, er enghraifft: te.

Mae'r agwedd "Dyma sut dwi'n ei wneud bob amser" ac mae dal ein gafael ar draddodiadau, yn y bôn, yn ein dal yn ôl. Angen bod â'r agwedd mae unrhyw beth yn bosibl a bod yn dilyn yr un agenda - gweithio gyda'n gilydd, rhywbeth nad ydym bob amser yn dda iawn am ei wneud yng Nghymru.

Mae cynhyrchwyr bwyd bach yn cael eu digalonni gan y ffaith na allant gael pris teg am eu cynhyrchion gan y prif fân-werthwyr, sy'n awyddus i gadw prisiau i lawr.

Mae bwyd yn rhy rhad. Dyw defnyddwyr ddim yn gwerthfawrogi ansawdd bwyd a'r hyn y dylai ei gostio bob amser; mae angen rhoi mwy o wybodaeth iddyn nhw.

**3.Cyfathrebu**

Dal ati i rwydweithio a magu hyder.

Hyrwyddo gwerth cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol. Gwelodd Covid y defnyddiwr yn dibynnu ar siopau lleol. Mae angen annog a datblygu'r duedd hon.

- Enghraifft ddelfrydol - http://217.199.187.190/caetancsa.org/en/

**4.Angehnion datblygu busnes**

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n creu cynhyrchion sydd eu hangen – yn ôl beth y mae'r defnyddiwr eisiau, nid y cynhyrchydd.

Gwerthfawrogi cynhyrchwyr annibynnol bach,
Gwella sgiliau busnes.
Cefnogi gweithgareddau lleol.
Manteisio ar sgiliau digidol.
Defnyddio gwybodaeth gyfunol.
Cynyddu a gwella marchnata.

## Ystafell grŵp 2

Cadeiriwyd gan Tim Hartley.

**1.Cyfleoedd allweddol**
Prosesu'n agosach at adref. Mae 50 y cant o rywfaint o gynnyrch Cymru yn gadael Cymru er mwyn cael ei brosesu ac rydym yn colli'r gwerth a ychwanegir. Dylai mwy o baratoi a phrosesu ddigwydd yn agosach at adref.

Mae Cymru yn dda am arloesi ym maes bwyd ond nid yn y marchnadoedd cynhaeaf naturiol ehangach.

Mae gan y Datganiadau Ardal ystod o randdeiliaid ac maent wedi'u gwasgaru ar draws 7 ardal wahanol. Fodd bynnag, mae bwyd yn gyffredin i bob un ohonynt ac mae potensial yma i adeiladu rhwydwaith/au o randdeiliaid.

Mae cynhyrchwyr llaeth yn ymuno â'r cynllun Tractor Coch. Beth â gant yw Jac yr Undeb ar eu cynnyrch yn hytrach na'r Ddraig Goch. A oes cyfle yma? Sicrwydd fferm cynaliadwy. Mae pobl eisiau bwyd y gallant ymddiried ynddo ond byddwch yn wyliadwrus o lu o achredu a biwrocratiaeth. A allwn ni wneud hyn yn haws? Efallai y bydd cynhyrchwyr artisan yn teimlo'n wahanol am hyn gan fod tarddiad eu cynnyrch yn allweddol.

Achredu/priodoli. Defnyddiwyd gwlân Cymru fel enghraifft. Faint o wlân sydd ei angen arnoch chi mewn cynnyrch cyn ei fod yn gynnyrch 'gwlân Cymreig'? Prin iawn yw'r aur Cymreig sydd yn Clogau Gold. Os yw'n gweithio yn y sector gwlân, pam ddim ei gyflwyno i sectorau eraill? Pryd mae pastai cig eidion yn gig eidion 'Cymraeg'? Pan fydd 50 y cant o'r cig sydd ynddo o Gymru?

Mae rhai archfarchnadoedd (nodwyd Co-op ac Aldi) yn stocio llawer o gynhyrchion o Gymru ac yn eu brandio felly. A ellir ymestyn y duedd hon? Os oes angen cyfaint ar Tesco gan gyflenwyr Cymru i gadw'r stoc ar y silffoedd yna sut allwn ni ddod ynghyd i sicrhau y diwellir eu hanghenion?

Mae yna wneuthurwyr eraill hefyd - dyw Wetherspoons ddim yn stocio gin o Gymru.

A ddylai penderfyniadau cynllunio a buddsoddi ar gyfer cyflenwyr, manwerthwyr newydd ac ati, fod yn ddibynnol ar gynnig canran benodol o gynnyrch Cymreig? Gallai caffael yn y sector cyhoeddus mewn ysgolion ac ysbytai ddarparu marchnadoedd mawr. A allai Llywodraeth Cymru ail-edrych ar sut maen nhw'n dod o hyd i'w cyflenwadau?

**2.Rhwystrau allweddol**
Mae'n ymddangos bod diffyg uchelgais. O'i gymharu â gweddill y DU, nid ydym yn gweiddi'n ddigon uchel am yr hyn sydd gennym i'w gynnig.

Mae 'corfforaethu' bwyd yn broblem. Nid ydym bellach yn gwybod beth yw bwydydd o safon na ble i'w cael.

Fel gwlad nid ydym yn dda am hunan-hyrwyddo a dylem ddysgu gwersi o'r weminar hon. "Y bore 'ma, ceisiais ddod o hyd i gynhyrchwyr lleol ar wefan Open Network. Doedd dim ar gael yn agos ata i!"

Mae anwybodaeth o werth ychwanegol lleoleiddio. Mae'n bosib cynyddu cost brecwast 'Cymraeg' 15% gan ei fod yn cynnwys cig moch Fferm y Llety a jam gan Anni Jones. Nodwch ei fod yn lleol ac eglurwch hynny i'r cwsmer. Mae angen i ni addysgu twristiaeth a lletygarwch am hyn.

Gall Llywodraeth Cymru wneud popeth y mae'n dymuno ei wneud ond ar ddiwedd y dydd, y diwydiant ddylai hybu'r agenda hon. Cyfeiriwyd at ymweliad ag Iwerddon lle roedd gan y cynhyrchwyr yno i gyd yr un neges. Ar draws Môr yr Iwerydd, mae llawer o arian yn cael ei fuddsoddi mewn marchnata a hyrwyddo. Ydyn ni'n gwneud digon?

Rhaid i ni fod yn ymwybodol o faterion amgylcheddol cyfredol a bod yn barod i ymdrin â hwy – er enghraifft, 'dyw cig ddim yn dda i chi.'

**3.Cyfathrebu**
Nid ydym yn ddigon gweladwy! Mae Channel 5 yn edrych fel y 'Yorkshire Channel' weithiau - maen ganddyn nhw bob amser raglenni am deithiau cerdded, adeiladau ac ati yn yr ardal. Beth amdanom ni?

Dylai busnesau, bwytai a thwristiaeth lleol i gyd gael eu cynnwys a dylid cyfathrebu â hwy yn hytrach na thargedu sector neu bartner penodol.

Mae angen i Croeso Cymru a'r diwydiant twristiaeth hysbysebu mwy a gwthio'r sectorau Bwyd a Chynhaeaf Naturiol.

Dylen ni fod yn hyrwyddo gwir 'Gerdyn Gwyrdd' Cymru. Organig, cynaliadwy, lleol, carbon isel. Canwch ei glodydd!

Mae angen pwynt gwerthu unigryw ar Gymru. Beth yw personoliaeth brand Cymru? Mae ein mentrau yn wahanol, ac mae angen inni edrych yn fwy cyfannol ar y gadwyn gyflenwi. Mae colled fawr ar ôl Sioe Frenhinol Cymru ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant arwain ar y mater hwn.

Mae safonau'n debyg ledled y DU felly 'beth sy'n ei wneud yn Gymreig?'

**4.Anghenion datblygu busnes**
Ymestyn a dyfnhau hyfforddiant fel bod pobl yn gweld gwerth yr agenda hon, o blant ysgol yn dysgu bod mwy i bryd bwyd gwych na siop tecawê a bwytai sy'n dewis ei gynnyrch gan ystyried y llinell waelod yn unig.

Mae angen i ni fyrhau cadwyni cyflenwi, creu cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a chyflenwyr a lle mae'r rheini eisoes yn bodoli, eu cryfhau.

Adeiladu platfform sy'n cysylltu cynhyrchwyr a chyflenwyr i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae angen holiadur arnom i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o wneud y cysylltiadau yr ydym i gyd yn siarad amdanynt. Yn syml, dyw llawer o fusnesau ddim yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae angen adeiladu màs critigol. Er enghraifft, hyd yn oed mewn tref farchnad fach, mae angen i gynhyrchwyr ddod at ei gilydd i gynnal cyflenwadau.

Mae angen i unrhyw achrediad newydd neu bellach fod yn gyffyrddiad ysgafn.

A all archfarchnadoedd lleol a chadwyni mawr stocio cynhyrchion mwy rhanbarthol, o Gymru gyfan?

Mae angen i ni chwalu'r meddylfryd seilo rhwng cwmnïau a sectorau yn ogystal â chanolbwyntio ar yr enillion mwyaf yn gyntaf. Nid Tesco yw ein gelyn ... rhaid i ni wella!

## Ystafell gyfarfod 3
Cadeiriwyd gan Mel Doel

**1.Cyfleoedd allweddol**
**Cyfleoedd**
Teimlai cyfranwyr fod pobl sydd dan glo (lockdown) yn trin bwyd lleol fel "trît". Roeddent yn hapus i wario mwy arno. Teimlwyd bod angen cynnal momentwm prynu bwyd lleol.

Byddai ymgyrch yn annog pobl i brynu'n lleol yn cael ei chroesawu. Byddai ffocws ar fapio cynhyrchwyr lleol yn ddefnyddiol. Gall swyddogion datblygu cymunedol lleol ychwanegu gwerth yn y ffordd honno. Ond rhaid dysgu gwersi gan fod rhai cynhyrchwyr yn codi'r gost yn ormodol gan arwain at rai prynwyr yn dweud na fyddent byth eto yn prynu cynnyrch lleol.

Ar yr adeg hon mae angen hyblygrwydd i ddod o hyd i farchnadoedd newydd a'u datblygu. Mae'r pandemig wedi arwain at farchnadoedd newydd yn agor a allai fod yn darged ar gyfer y dyfodol.

Er enghraifft, er mwyn galluogi cynhyrchwyr lleol i allu gwerthu cig oen i'r farchnad leol, newidiodd canolfan arddio ei fodel busnes o werthu planhigion i werthu cynnyrch lleol.

Ystyriwyd bod brand Cymru yn bwysig iawn.

**2.Rhwystrau allweddol**
Credir ei bod yn bwysig helpu pobl i ddeall y gall bod yn wyrdd neu'n gynaliadwy arbed costau a gwella busnes.

Er bod llawer o gyngor i fusnesau a chynhyrchwyr, ychydig iawn o arian oedd ar gael ar gyfer dechrau busnes. Teimlwyd bod y sefyllfa'n wahanol ac nad oedd wedi'i chydgysylltu ddigon ac roedd angen cronfa ddata yn egluro gyda phwy y gallai pobl siarad, gan helpu i ddarparu catalydd ac i gymell pobl.

Ystyriwyd bod tlodi bwyd yn broblem yn enwedig yn ystod y pandemig.

Mae'n bwysig darparu cynhyrchion arbenigol. Mae angen i gynhyrchwyr wybod yn union beth mae pobl ei eisiau ac a allan nhw fforddio'r hyn maen nhw'n ei gynhyrchu.

3.**Cyfathrebu**
Roedd cyfathrebu yn allweddol ond yn gymhleth gyda mwy o angen 'adrodd ein stori' a phenderfynu pwy yw'r gynulleidfa darged a beth yw'r neges.

Roedd angen mwy o wybodaeth am darddiad bwyd ar fwydlenni ac mewn siopau.

Byddai mwy o gydweithredu rhwng cynhyrchwyr bwyd a'r rhai sy'n coginio neu'n paratoi ein bwyd yn fuddiol iawn.

Rhaid i gynhyrchwyr bwyd ysgwyddo'r cyfrifoldeb o farchnata eu hunain fel bod pobl ar eu gwyliau ac ymwelwyr â gwyliau a marchnadoedd yn cael mwy o daflenni yn dweud wrth bobl ble y gallant barhau i gael y cynnyrch pan gyrhaeddant adref.

Mae angen i ni ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth o gadwyni cyflenwi cynhaeaf naturiol eraill - pethau fel lledr a gwlân y gellir eu defnyddio mewn cymaint o ffyrdd gan gynnwys pecynnu, duvets a chompost.

Mae angen i ni ddychwelyd i'n seiliau fel petai a chanolbwyntio ar darddiad bwyd a'i daith. Roedd plant yn cael eu hystyried yn allweddol ac roedd angen iddynt fod yn tyfu ac yn dysgu mwy am fwyd a maeth lleol fel eu bod yn rhannu'r neges, gan wella gwerthiant.

**4.Angehnion datblygu busnes**
Mae rhai yn y diwydiant yn 'colli cyfleoedd' o ran cefnogaeth a chyngor ac yn teimlo bod angen pwynt canolog ar-lein, gyda mynediad hawdd, gan gyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a chyllid.

Cost oedd un o'r materion mwyaf ac awgrymodd y gallai mwy o gydweithredu a chydweithio rhwng cynhyrchwyr arwain at leihau costau.

Gormod o brosiectau bach sy'n para am oddeutu 12 mis ac nad ydyn nhw'n cael effaith hirdymor ac sy'n lledaenu cefnogaeth ariannol gyfyngedig yn rhy denau. Efallai byddai prosiectau tymor hwy o fwy o fudd.

## Ystafell grŵp 4

Cadeiriwyd gan John Geraint.

**1.Cyfleoedd allweddol**

Mae newid ymddygiad defnyddwyr mewn ymateb i'r pandemig wedi creu cyfleoedd i gyflenwyr gydweithredu yn y farchnad leol.

Cyn Covid, roedd marchnad ar-lein Cowbridge Food Collective, sy'n ddatblygiad o'r farchnad ffermwyr, yn arfer cael rhwng 30 a 50 o gwsmeriaid yn rheolaidd ond bellach, mae'n croesawu 150 o gwsmeriaid amrywiol bob wythnos, y mwyaf y gall ei groesawu ar yr un pryd.

Mae dosbarthu yn fater mawr i'r cynhyrchydd bach, o ran trafnidiaeth a deunydd pacio.

Mae yna gyfoeth o wybodaeth ac adnoddau ar gael i'ch cefnogi pan fyddwch chi'n gwybod ble i chwilio, ac mae perthnasoedd rhwydweithio yn hynod werthfawr ar ôl gwneud cysylltiadau. Ond mae'n rhaid wybod ymhle mae'r gefnogaeth hon ar gael.

Mae diffyg lleoliad canolog popeth-mewn-un ar gyfer gwybodaeth (gyda dolenni clicio i wefannau eraill) yn ei gwneud yn anodd i gyflenwyr bach sydd o reidrwydd yn canolbwyntio ar eu restri tasgau dyddiol.

**2.Cyfathrebu**

Pan yn cyfathrebu gyda'ch cyfoedion a'ch asiantaethau cymorth, mae'n rhaid i ddod o hyd i'r hyn sy'n "gwneud i'ch calon ganu" - e.e. cefnogaeth cymheiriaid a rhannu sydd ar raddfa sy'n addas i'ch busnes.

Wrth gyfathrebu â chwsmeriaid, camgymeriad cyffredin yw gwneud y neges farchnata yn rhy eang, yn hytrach na'i theilwra i'r segmentau targed.

**3.Anghenion datblygu busnes**

Mae llawer o fusnesau gwledig yn datblygu o angerdd, neu am fod ganddo wreiddiau yn y lleoliad.

Bydd anghenion datblygiadol y busnes yn newid wrth i'r busnes ddatblygu, felly mae'n rhaid i chi fod yn hyblyg ac yn barod i esblygu.

Er bod technoleg yn ymddangos fel petai'n sbardun i gynhyrchwyr wneud busnes ar "lefel fawr"; mae pwysau amgylcheddol ac yn fwy diweddar, pwysau oherwydd y pandemig, yn ffafrio gweithrediadau ar raddfa lai. Dyw pawb ddim yn "ffermwr" - mae gan dyddynwyr anghenion gwahanol.

Gall bylchau mewn cyfleusterau ddatblygu/amlygu eu hunain, bylchau sy'n anodd eu llenwi o ystyried graddfa economi wledig Cymru (e.e. cau marchnad da byw, a oes cegin fasnachol ar gael i allu paratoi cynnyrch amrwd er mwyn ei werthu?) a gall dod o hyd i'r porth cywir gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â materion dosbarthu o'r fath fod yn broblem, hyd yn oed i asiantaethau sefydledig.

"Rhwydweithio yw popeth".

# ATODIAD 2

## Dolenni defnyddiol:

Community Food Network Cymru

Cynllun Neges Project

Cynllun Neges Project ppt

Hafan– Wye Valley Producers

https://www.arranland.org/about

https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/food-and-drink-industry-board (saesneg yn unig)

https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/sut-gallwn-ni-helpu/canolfannau-arloesi

https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy

https://fuw.org.uk/cy/newyddion/y-tir-newyddion

https://llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig

https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/news/taskforce-launches-action-plan-towards-a-green-and-just-covid-19-recovery-for-wales/?lang=cy

https://openfoodnetwork.org.uk

https://openfoodnetwork.org.uk/map

https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES/subscriber/new?topic_id=UKWALES_82

https://siop.io

https://sizeofwales.org.uk/cy/addysg/cenedl-dim-datgoedwigo/

https://wcva.cymru/cy/cylch-newydd-o-cynhwysiant-gweithredol-nawr-ar-agor/

https://www.cowbridgefoodcollective.co.uk/

https://www.ernaehrungswandel.org/…/food-system-chang…/about

https://www.fordhallfarm.com/

https://www.hillholtwood.co.uk/about

***https://www.landworks.org.uk/landworks-prisoner-training/***

https://www.mentermon.com/priosectau/tech-tyfu/

https://www.peterstontea.com/

https://www.thestop.org/

https://welcometoourwoods.org/

Our Food: Growing food locally, sustainably and profitably (our-food.org)

https://www.foodskills.cymru/cy/cymru-cyrchfan-bwyd/

https://www.foodskills.cymru/cy/cymru-cyrchfan-bwyd/ccb-pecyn-gwaith/brecwast-cymreig/

Will Allen's 'Good Food Revolution' (entrepreneur.com)

www.llaisygoedwig.org.uk